

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH,

### 13eg Mehefin 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. **Presennol** – Ceri Owen (Cad), Barry Bracegirdle, Erfyl Williams, Justin Davies, Judith Humphreys (Penygroes), Gwynndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni), Siân Dafydd (Talysarn).

**Ymddiheuriadau** – Harry Owen, Gareth Jones (Talysarn), Christine Hughes (Llanllyfni), Dafydd Thomas (Nebo), Ffion Jones (Nantlle), Dylan Herbert (Penygroes), Cyng. Peter Thomas.

2. **Datgan Buddiant** - Justin Davies a Judith Humphreys datgan buddiant ym mater Yr Orsaf a Thir Cwtin.

3. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod 9 Mai 2023** – Nododd Justin ei fod wedi cyrraedd y cyfarfod yn hwyr a bod angen nodi hyn. Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir fel arall.

4. **Materion yn codi o'r cyn cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd** - Tir Cwtin - adroddwyd bod gohebiaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â hyn ond wedi esbonio na fydd ymateb i ddim byd yn cael ei wneud hyd nes cyfarfod mis Medi a pan fydd y ddwy ochr wedi cael cyfle i roi eu ceisiadau / ymatebion ymlaen. Dyddiad cau hyn yw 31 Gorffennaf sydd yn rhoi amser wedyn i'r cyngor edrych dros y pethau. Nodwyd bod yna bethau wedi bod yn mynd ymlaen o ran tanseilio gwaith Yr Orsaf ayyb - ond nid oes dim all y Cyngor Cymuned wneud am hyn gan mai rhwng Pwyllgor Maes Y Môr a'r Orsaf mae'r materion hynny. Derbyniwyd copi o e-bost a oedd wedi ei yrru i Siân Gwenllïan gyda chais i Lywodraeth Cymru gywiro'r llanast a adawyd yn Cwtin yn dilyn y gwaith ar y ffordd osgoi. Y clerc i ymateb i ddiolch am hwn a bydd y Cyngor Cymuned yn edrych ymlaen at weld beth fydd eu hymateb. Roedd e-bost hefyd wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Maes Y Môr bod aelod o'r Orsaf wedi dweud mai'r Cyngor Cymuned a oedd wedi cysylltu â nhw yn uniongyrchol am y grant ar gyfer rhandiroedd - esboniwyd bod y clerc yn derbyn llawer iawn o e-byst gan wahanol sefydliadau ayyb yn hysbysu llawer o bethau a allai fod o fodd i gymunedau ac wedyn ei bod yn eu pasio ymlaen i'r cynghorwyr sydd wedyn a'r rhwydd hynt i'w pasio ymlaen i sefydliadau y maen nhw yn meddwl buasai yn elwa o hyn. Cerbiau Trem Yr Wyddfa - wedi eu hatgyweirio. Adroddwyd bod Ffordd Llwyndy ar yr amserlen i gael ei atgyweirio. Angen atgoffa'r contractwyr bod angen torri'r mynwentydd cyn Sul Y Tadau sydd ar 19 Mehefin. Ynni Cymunedol - gofyn iddynt yrru mwy o wybodaeth. Beddau rhyfel y Gymanwlad - gofyn am arwyddion maint 430 x 230mm a'u gosod ar y wal wrth fynedfa'r mynwentydd. Hefyd gofyn am broflen cyn eu gosod er mwyn gweld bod y Gymraeg yn gywir ganddynt. Safle Taldwrst - darllenwyd yr ymateb a gafwyd gan Gyngor Gwynedd yn dilyn o ragor o gwynion am loriau ar Lôn Ddŵr, Llanllyfni. Y clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd os yn iawn i rannu hwn gyda'r aelod o'r cyhoedd a oedd wedi dod ymlaen gyda'r gwyn. Cais cynllunio Cae Efa Lwyd - adroddwyd yr ymateb a oedd wedi dod gan Gyngor Gwynedd a phenderfynwyd na all y Cyngor Cymuned wneud dim ar hyn o bryd a disgwyl i weld beth fydd y camau nesaf.

5. **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir** - yn ei absenoldeb roedd adroddiad wedi ei derbyn gan Cyng. Peter Thomas ac roedd pawb wedi cael cyfle i'w gweld cyn y cyfarfod. Nid oedd dim yn codi o'r adroddiad. Roedd y clerc wedi cysylltu gyda'r cynghorwyr eraill i ofyn a oeddynt yn fodlon bod yn bresennol yn y cyfarfodydd er mwyn adrodd ar eu gwaith ayyb ond nid oedd dim ymateb wedi dod ganddynt. Dywedodd y cadeirydd y buasai hefyd yn cysylltu gyda hwy i ddatgan siom y Cyngor Cymuned nad ydynt yn bresennol nac chwaith yn rhoi adroddiad ymlaen.

6. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau** - nid oedd is-bwyllgor wedi ei gynnal yn ystod y mis, ond adroddodd Justin ei fod o wedi mynychu cyfarfod rhithiol ynglŷn â'r Ganolfan Lles / Hwb lechyd newydd. Esboniodd Justin beth drafodwyd ac esboniodd bod parcio i weld yn broblem a'r lleoliad parcio hefyd. Cytunodd Justin i roi sylwadau i gyd lawr er mwyn i'r clerc eu pasio ymlaen i Mair Edwards Grŵp Cynefin sydd am ddod i gyfarfod mis Gorffennaf i drafod y ganolfan ymhellach. Diolchwyd i Justin am fynychu'r cyfarfod.

7. **Polisiâu a Gweithdrefnau** - bu i'r clerc nodi bod yna bolisiâu angen eu gwneud a'u pasio ar gyfer yr archwiliad blynyddol. Roedd wedi paratoi 'Cynllun Hyfforddi' a 'Polisi Bioamrywiaeth' ac roedd pawb wedi cael cyfle i edrych

drostynt cyn y cyfarfod. Yn yr un modd roedd pawb wedi derbyn copi o 'Bolisi Iaith' newydd a oedd wedi ei baratoi. Rhoddwyd cyfle i unrhyw un godi unrhyw beth am y polisiau hyn - nid oedd dim yn codi a chytunwyd yn unfrydol i'w derbyn a'u pasio.

**8. Materion Pentrefi - Talysarn** - Rhywun yn gadael bagiau baw cŵn llawn ar wal ar Lôn Yr Eglwys - a oes modd gofyn i Gyngor Gwynedd osod bin baw ci yn nhop y lôn? **Penygroes** - cwynion wedi ei derbyn bod cwmni ar y Stryd Fawr yn parcio llawer o'u cerbydau ar y stryd sydd yn cymryd lleoedd parcio i fyny. Awgrymwyd gyrru e-bost cwrtais i'r cwmni yn gofyn oes posib iddynt beidio parcio cymaint o gerbydau ar y stryd. Cynigwyd efallai y buasai yn syniad i'r rhai sydd yn medru i nodi cwynion i Gyngor Gwynedd yn syth ar y wefan eu hunain yn hytrach na disgwyl i gyfarfod llawn. Gofynnwyd i'r clerc e-bostio manylion mewngofnodi'r cyngor i bawb ac wedyn mae modd cadw golwg ar y ceisiadau/cwynion sydd yn cael eu gyrru fewn i Gyngor Gwynedd. Rhybudd cau ffordd Trem Yr Wyddfa wedi ei dderbyn sydd yn nodi eu bod yn ei chau am hyd at 12wythnos. Esboniwyd bod y cadeirydd wedi cael gair gyda Chyngor Gwynedd am hyn ac nid ydynt yn bwriadu ei chau yn gyfan gwbl os na fydd wir raid, ac os bydd hyn yn digwydd yna dim ond am un neu ddau ddiwrnod y buasai hynny. Os bydd yn rhaid ei chau yna mae wedi ei gynllunio yn barod bod modd i'r trigolion barcio dros y ffordd ar hen safle cwmni Express Motors. Cais wedi do di ofyn pwy sydd yn berchen ar y camerâu cylch cyfyng sydd wedi eu gosod ar adeilad Grŵp Cynefin? Nid Cynefin sydd eu perchen. Dau ddigwyddiad wedi bod yn ddiweddar ar CCC ddim yn gweithio. Esboniwyd bod sôn mai efallai Ffrindiau Penygroes wnaeth etifeddu'r camerâu - angen holi am hyn. **Llanllyfni** - tyllau yn y ffordd wrth Frondeg ar y ffordd i Nebo. Llauer o sbwriel ar y ffordd o Nebo am Lanllyfni ac angen ei gasglu. Cylchdro Penygroes am Lanllyfni angen cael ei dorri a hefyd angen torri'r drain ar ochr yr Ystâd Ddiwydiannol gan nad oes modd gweld os oes cerbydau yn dod o gyfeiriad Lanllyfni ar y cylchdro. Y clerc i gysylltu gyda'r gwahanol sefydliadau am y materion hyn.

**9. Taflen ariannol a chyllid** – roedd pawb wedi cael copi o'r gyllideb cyn y cyfarfod i edrych drosto. Nid oedd dim yn codi o'r gyllideb.

**10. Llwybrau a Mynwentydd - Sbwriel yn y mynwentydd** - er bod arwyddion ar y giatiau mae pobl dâl i adael sbwriel yn y mynwentydd. Gofyn i'r contractwyr sydd yn torri i fynd ar sbwriel oddi yno a holi Designer Signs pryd fydd yr arwydd newydd yn mynd fyny yng Ngorffwysfa. **Mynwent Sant Rhedyw** - stepen yn rhydd ac angen ei drwsio - gofyn i'r contractwyr edrych ar hyn a gwneud y gwaith. **Cwt Mynwent Gorffwysfa** - ar ôl edrych eto meddwl efallai nad yw yn syniad i dynnu'r cwt i lawr a buasai yn well ei adael. Angen gosod llechen ar y to a rhoi drws newydd. Mae yn gyfrifoldeb ar y Cyngor Cymuned i'w wneud yn saff. Cytunodd pawb gyda hyn a gofyn i gael prisiau ar y gwaith erbyn y cyfarfod nesaf. **Cwningod** - cwynion wedi ei derbyn bod cwningod yn Fynwent Gorffwysfa sydd yn bwyta a difetha'r blodau. Meddwl eu bod yn dod o gae cyfagos ac nad yn y fynwent maen nhw. Cael gair gyda'r contractwyr am hyn. **Cyfarfod** - y clerc i gysylltu gyda'r contractwyr i ofyn a oes modd cael cyfarfod gyda Gwynndaf a Barry i drafod eu gwaith.

**11. Lloches bws Penygroes** – yn dilyn rhoi hysbyseb allan am y gwaith o atgyweirio y llochesi dim ond un wedi ei dderbyn. Pasiwyd yn unfrydol i dderbyn y pris a gofyn iddynt gario allan y gwaith cyn gynted ag y bo modd.

**12. Ceisiadau Cynllunio** -

- C23/0437/22/LL - 1 Maes Dulyn, Penygroes - cyflenwad llifolau i gae pêl-droed - nid oedd dim i'r cais ond eisiau nodi onid Cae Pêl-droed Maes Dulyn (Nantlle Vale) ddylai hwn fod ?

**13. Gohebiaeth** –

- Alzheimer's Society Charity Event 2024 – **nodi wrthynt drïo Glynllifon neu Talmignedd**
- Cyngor Gwynedd – Cynllun rhannu cartref Gwynedd
- Eglwys y Drindod Sanctaidd Penrhyndeudraeth – Gardd Dangnefedd

- Un Llais – Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais – Wynebu heriau dyfodol dyrys
- Cyngor Gwynedd – Agor cronfeydd Cefnogi SPF

**14. Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r rhain i gyd. Bellach adroddiad yr archwiliad wedi ei dderbyn felly iawn i'w dalu.

- Nia Jones - Ffôn a rhyngwyd - **£25.00**
- Archwilio Cymru – ffioedd archwilio **£324.00**
- Moss Computers Cyf - Antivirus a gwasanaeth i'r lap top **£60.00**
- Ann Llwyd – cyfieithydd **£97.65**

**15. Unrhyw fater arall** - e-bost wedi ei dderbyn gan Glwb Pêl-droed Talysarn Celts yn gofyn a oedd gan y Cyngor Cymuned unrhyw dystiolaeth o gais cynllunio a wnaed i wneud y Gloddfa Glai yn faes ar gyfer campio. Adroddwyd y buasai yn rhaid edrych drwy'r ffeil cyn ymateb yn nôl iddynt.

Pwyllgor Parc Eryri - maen nhw angen cynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned ar y pwyllgor - cytunodd Judith, Justin a Nia (fel Clerc) i fynychu'r cyfarfodydd.

Diolchwyd i bawb am fod yn bresennol a bydd y cyfarfod nesaf yw gynnal nos Fawrth, 11eg Gorffennaf 2023 am 7.00yh.